Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Sefydlu 2017



Yn ôl Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu Addysg (CBGY) ym mis Tachwedd 2022 mae 26,445 o athrawon yn gyflogedig mewn ysgolion yng Nghymru, a 30,860 o gynorthwy-wyr dosbarth.

Llongyfarchiadau!

Addysg: Chwe amcan Llywodraeth Cymru

i) Dysgu am Oes

ii) Chwalu Rhwystrau

iii) Profiad addysg cadarnhaol i bawb

iv) Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel

v) Dysgu yn y Gymuned

vi) Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni gyd

Mae’n rhaid i addysg barhau i ddatblygu a diwygio

Er enghraifft;

- Cwricwlwm i Gymru
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Ecwiti a Difreintedd
- Diwygio Cymwysterau

Dysgwyr sydd yn gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg

Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Noda’r Ddeddf a’r **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol** mai un o’i nodau craidd yw creu system gymorth ddwyieithog ar gyfer dysgwyr ag ADY. Os penderfynir y dylai plentyn neu berson ifanc gael Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn Gymraeg, rhaid cofnodi hyn yn y Cynllun Datblygu Unigol a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau’r ddarpariaeth yn y Gymraeg.

Ecwiti a Difreintedd:

Torri’r cylch tlodi

Diwygio cymhwysterau:

Ystod ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg

Continiwm iaith



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Nodir yn glir yn y ddogfen bolisi ‘Cymraeg 2050 : Miliwn o siaradwyr’ ei fod

“... yn hanfodol ein bod yn datblygu rhagor o aelodau o’r gweithlu sy’n gallu addysgu’r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi’r ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy’r system addysg.”

Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022 a hynny er mwyn:

“... meithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu addysg a sicrhau bod gan ein harweinwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i gynllunio a datblygu’r Gymraeg yn strategol yn ein hysgolion. Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwlad lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae angen gweithlu medrus yng Nghymru.”

Diwallu nodau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Awdurdodau Lleol

Bil Addysg Gymraeg : Papur Gwyn

Pennod 1: Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg

Pennod 2: Continwwm sgiliau Cymraeg gydol oes

Pennod 3: Categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith

Pennod 4: Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg

Pennod 5: Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg mewn awdurdodau lleol

Pennod 6: Dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol

Pennod 7: Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil

Fframwaith Cymwyseddau Iaith : Ymarferwyr Addysg

Cwricwlwm Cymraeg i Oedolion	Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR)
Lefel Mynediad	A1
Lefel Sylfaen	A2
Lefel Canolradd	B1
Lefel Uwch	B2
Lefel Hyfedredd	C1+

Cwricwlwm Cymraeg i Oedolion	CEFR	Diffiniad Llafaredd
Lefel Mynediad	A1	Rwy'n gallu cyflwyno fy hun ac eraill ar lafar. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. ble mae rhywun yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei wneud. Rwy'n gallu defnyddio amseroedd y ferf a rhifau
Lefel Sylfaen	A2	Rwy'n gallu cyfrannu at sgwrs syml gan ddefnyddio amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.
Lefel Canolradd	B1	Rwy'n gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth. Rwy'n gallu disgrifio profiadau a gobeithion, ac yn gallu rhoi esboniadau cryno dros fy marn. Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin
Lefel Uwch	B2	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Rwy'n gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Rwy'n gallu mynegi a chyfiawnhau barn. Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro
Lefel Hyfedredd	C1+	Rwy'n gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, ac yn gallu cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rwy'n gallu rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Rwy'n gallu hunan gywiro lle bo angen.

Cyfleoedd i’r gweithlu addysg i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg

Safonau Proffesiynol i Athrawon

Cyfeirir at sgiliau'r Gymraeg ymarferwyr yn y Safonau Proffesiynol i athrawon gan nodi:

"Ceir ymrwymiad personol i ddatblygu sgiliau cam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg."

ac eto yn y disgrifydd 'Arferion effeithiol iawn a pharhaus':

"Mae'r athro'n gweithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i sgiliau Cymraeg, ac i ehangu'r ddealltwriaeth honno a'r sgiliau hynny."

Cyfleoedd

- Addysg Gychwynnol Athrawon
- Sabothol
- Gwersi am ddim gyda’r nos i’r gweithlu addysg
- Cyrsiau hunanastudio ar lein
- Cyfleoedd lleol drwy Awdurdodau Lleol neu ranbarthau/partneriaethau

Astudiaeth y Ganolfan i’r cyfleoedd i’r gweithlu addysg yn genedlaethol.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Amdanom ni Dysgu Cymraeg Gwaith Cymorth Tiwtoriaid Newyddion English

Amdanom ni Dysgu Cymraeg Gwaith Cymorth Tiwtoriaid Newyddion

Ffeindiwch eich cwrs newydd

Pori'r holl gyrsiau

Hoffwn i gael help wrth ddewis cwrs

Dechreuwch

Creu Cyfrif

Pa fath o gwrs?

Adnoddau Digidol

Gweithlu Addysg

www.dysgucymraeg.cymru

BETH SY AR GAEL

HUNAN-ASTUDIO

Hunan-astudio: Cwrs Byr (10 awr) i Ymarferwyr

HUNAN-ASTUDIO

Hunan-astudio: Lefel Mynediad i Athrawon (120 awr)

DARGANFOD

Athrawon Cynradd: Cwrs lefel Sylfaen

Os oes diddordeb gennych yn nhaith yr iaith …

Câr-di Iaith - Hanes Yr Iaith Gymraeg (google.com)

“

Being bilingual isn’t a barrier. Having an accent isn’t a challenge. Thinking in a different language first isn’t a complication. **Bilingualism is an asset, not a deficit.**

—**ANDRÉA RODRIGUEZ**
HIGHER EDUCATION EDUCATOR

Pwysigrwydd ac effaith

gwên

amynedd

agwedd

It was only a sunny smile,
and little it cost
in the giving,
but like morning light
it scattered the night
and made the day
worth living.

F.Scott Fitzgerald

"ONE DOESN'T HAVE TO OPERATE WITH GREAT MALICE TO DO GREAT HARM.
THE ABSENCE OF EMPATHY & UNDERSTANDING ARE SUFFICIENT."

—

CHARLES M. BLOW

“Dere â’r haul, ac mi ddaw’r haf”

Mererid Hopwood

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn